



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Newid dyddiad Procurex Cymru i 18 Mawrth 2020 6 Awst 2019

Bydd digwyddiad Procurex Cymru eleni, a oedd i fod i gael ei gynnal yn y Motorpoint Arena yng Nghaerdydd ar 7 Tachwedd 2019, bellach yn cael ei gynnal ar 18 Mawrth 2020.

Gwnaed y penderfyniad hwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar y digwyddiad a darparu digon o adnoddau ar ei gyfer, o ystyried bod y dyddiad gwreiddiol yn agos iawn at ddyddiad Brexit, sef 31 Hydref. Bydd y dyddiad newydd ar gyfer Procurex Cymru yn sicrhau bod y digwyddiad yn llwyddiant a bod y gymuned o brynwyr a chyflenwyr ledled Cymru yn gallu rhoi eu holl sylw iddo.

Oni bai fod y dyddiad wedi newid, bydd y digwyddiad yn aros yr un fath, gyda'r un nifer o siaradwyr gwadd, Parthau Rhwydweithio a Chydweithio, a llawer mwy. Mae unrhyw gynadleddwyr, arddangoswyr a noddwyr sydd eisoes wedi cofrestru wedi cael eu cario drosodd i'r dyddiad newydd ac mae manylion yr holl becynnau yn aros yr un fath. Os nad ydych chi wedi archebu eich lle eto, gallwch wneud hynny drwy fynd i'n gwefan bwrpasol ar gyfer y digwyddiad – <https://www.procurexcymru.co.uk>.

Yn ogystal â Procurex Cymru 2020, bydd seremoni wobrwyo'r Gwobrau Rhagoriaeth ym maes Caffael Cyhoeddus yng Nghymru – Cyfleoedd y Llywodraeth (GO), sy'n rhoi sylw i'r holl agweddau gorau ar gaffael cyhoeddus ledled Cymru, yn cael ei chynnal ar yr un noson, 18 Mawrth, yng Ngwesty Mercure, Caerdydd.

Dywedodd Simon Burges, Prif Swyddog Gweithredol BiP Solutions, sy'n trefnu Procurex Cymru: "Rydyn ni'n croesawu'r newid dyddiad oherwydd mae'n sicrhau bod arddangoswyr, siaradwyr a chynadleddwyr yn cael profiad cadarnhaol ac yn cael cymaint o fudd â phosib o'r digwyddiad. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i sicrhau mai Procurex Cymru yw'r digwyddiad pwysicaf i unrhyw un sy'n gweithio ym maes caffael yng Nghymru heddiw."

Gyda chymaint yn digwydd ym maes caffael cyhoeddus yng Nghymru, bydd Procurex Cymru 2020 a Gwobrau GO Cymru yn gyfleoedd gwych i ddysgu, rhwydweithio a dathlu cyfraniad caffael yng Nghymru. Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu chi i Procurex Cymru a Gwobrau GO Cymru ar 18 Mawrth 2020 yng Nghaerdydd.

Diwedd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag events@procurexwales.co.uk